Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# Cytundeb Myfyrwyr 2026-27

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg**

## CYNNWYS

**Cyflwyniad** .......... 2
**1. Talu Ffioedd** .......... 2
**2. Cywirdeb Gwybodaeth** .......... 3
**3. Cyhuddiadau troseddol, euogfarnau troseddol a gwiriadau'r DBS** .......... 3
**4. Cyfathrebu â PCYDDS** .......... 4
**5. Rheoliadau, Polisïau a Gweithdrefnau PCYDDS** .......... 4
**6. Gwneud newidiadau** .......... 5
**7. Digwyddiadau tu allan i'n rheolaeth** .......... 7
**8. Undeb y Myfyrwyr** .......... 8
**9. Diogelu Data** .......... 8
**10. Eich hawliau canslo pan fyddwch yn derbyn ein cynnig** .......... 9
**11. Eich hawliau i ganslo a thynnu'n ôl ar ddechrau eich rhaglen a, lle bo'n berthnasol, ar ddechrau pob lefel ddilynol o'r rhaglen y byddwch yn cofrestru arni** .......... 10
**12. Eich hawliau terfynu ar ôl 14 diwrnod** .......... 10
**13. Ein hawliau terfynu** .......... 11
**14. Cwynion myfyrwyr** .......... 12
**15. Cyffredinol** .......... 12
**Atodiad 1 – Newidiadau mawr a mân a chyfathrebu** .......... 13
**Atodiad 2 – Ffurflen ganslo** .......... 15

## Cyflwyniad

Os byddwch yn derbyn cynnig ar gyfer lle ar raglen astudio yn PCYDDS, byddwch yn ymrwymo i gytundeb (contract) â ni. Y Cytundeb Myfyrwyr hwn (y 'Cytundeb'), ynghyd â'ch llythyr cynnig, yw'r contract y byddwn yn ei wneud â chi ac mae'n gontract sy'n rhwymo mewn cyfraith. Mae'n bwysig iawn eich bod yn ei ddarllen yn ofalus cyn derbyn eich cynnig. Mae'r Cytundeb yn cynnwys dau Atodiad y dylech eu darllen.

Ar yr adeg y byddwch yn ymrwymo i'r Cytundeb, byddwch yn dod o dan Reoliadau, Polisïau a Gweithdrefnau PCYDDS. Byddwn yn gofyn i chi ymrwymo i Gytundeb Myfyrwyr bob tro y byddwch yn cofrestru neu'n ailgofrestru gyda ni.

Mae'r Cytundeb yn berthnasol i'r holl fyfyrwyr ond mae rhai cymalau'n cyfeirio'n benodol at 'fyfyrwyr rhyngwladol', sy'n golygu myfyrwyr sydd wedi'u hasesu fel rhai rhyngwladol at ddibenion ffioedd dysgu.

Yn y Cytundeb hwn rydym yn defnyddio'r term 'rhaglen astudio' (neu'n gryno 'rhaglen') i gyfeirio at y mathau amrywiol o gyrsiau a gynigiwn. Mae'r rhain yn cynnwys rhaglenni gradd, rhaglenni prentisiaethau a chyrsiau byr a allai arwain at ddyfarnu credydau neu gymhwyster, neu beidio.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y Cytundeb, anfonwch e-bost registry@uwtsd.ac.uk neu os ydych yn fyfyriwr rhyngwladol, e-bostiwch y tîm perthnasol isod:
Derbyniadau Rhyngwladol Birmingham: BirminghamInt@uwtsd.ac.uk
Derbyniadau Rhyngwladol Llundain: LondonInt@uwtsd.ac.uk
Derbyniadau Rhyngwladol Cymru: WalesInt@uwtsd.ac.uk

## 1. Talu Ffioedd

1.1 Nodir y ffioedd dysgu am eich rhaglen astudio ('rhaglen') yn eich llythyr cynnig. Darperir gwybodaeth hefyd ar wefan PCYDDS. Rhaid i chi roi gwybodaeth i ni am sut byddwch yn talu eich ffioedd dysgu pan ofynnwn am y wybodaeth honno.

1.2 Gall ffioedd gynyddu'n flynyddol. Os ydych yn fyfyriwr israddedig cartref amser llawn (neu TAR, mae eich ffioedd dysgu'n cael eu llywodraethu gan Lywodraeth Cymru. Mae'n bosibl y byddwn yn cynyddu eich ffioedd dysgu yn flynyddol yn unol ag unrhyw ddiwygiad i'r uchafswm ffioedd dysgu a bennir gan Lywodraeth Cymru.

1.3 Byddwch yn rhoi gwybod i chi drwy e-bost os ydym yn bwriadu cynyddu eich ffioedd dysgu.

1.4 Rhaid i chi dalu eich ffioedd dysgu ac unrhyw gostau eraill y byddwch yn mynd iddynt wrth astudio gyda ni, megis ffioedd llety, pan fyddant yn ddyledus. Chi fel y myfyriwr sydd â'r brif rwymedigaeth i dalu ffioedd dysgu ac unrhyw daliadau eraill. Rhaid i chi hefyd sicrhau eich bod yn gallu talu unrhyw gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'ch rhaglen, fel y'i disgrifir ar ein gwefan.

1.5 Byddwn yn eich anfonebu am y swm llawn neu'r gyfran sy'n weddill o'ch ffioedd dysgu am bob blwyddyn o'ch rhaglen ar ddechrau eich blwyddyn academaidd. Gall fod achlysuron pan na fyddwn yn gwneud hyn, megis pan fydd eich ffioedd yn cael eu talu i ni'n uniongyrchol gan gorff allanol neu'ch cyflogwr neu noddwr.

1.6 Os ydych yn cofrestru ar y sail eich bod neu y byddwch yn gwneud cais am hepgor ffioedd dysgu, am fwrsari neu ffynhonnell gyllido arall gan PCYDDS, rhaid i chi dalu'r swm llawn sy'n ddyledus os na fydd y cais yn cael ei gymeradwyo.

1.7 Os ydych yn byw yn llety PCYDDS, rhaid i chi dalu eich ffioedd llety ac unrhyw daliadau cysylltiedig yn unol â'r amserlen daliadau a ddarperir a'n telerau ac amodau ar gyfer llety preswyl.

1.8 Os byddwch yn methu â thalu eich ffioedd dysgu pan fyddant yn ddyledus, ac yn methu gwneud trefniadau boddhaol i glirio unrhyw ddyled sy'n weddill, bydd y Brifysgol yn gweithredu gweithdrefnau priodol. Bydd hyn yn golygu y gallech gael eich tynnu'n ôl o'ch rhaglen astudio, efallai na chaniateir i chi gofrestru ar gyfer tymhorau dilynol, ac ni fydd gennych hawl i fynd ymlaen i flwyddyn nesaf eich astudiaeth, derbyn eich dyfarniad na graddio. Os bydd unrhyw ddyled yn weddill, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i gymryd camau pellach i adennill y ddyled, a all gynnwys dechrau achos cyfreithiol. Os bydd gennych ffioedd llety heb eu talu, fel arfer ni fyddwn yn caniatáu i chi barhau i fyw yn llety PCYDDS.

# 2. Cywirdeb Gwybodaeth

2.1 Pan fyddwch yn cofrestru gyda ni byddwn yn gofyn i chi gadarnhau eich bod wedi rhoi gwybodaeth lawn a chywir amdanoch chi. Os bydd y wybodaeth hon yn newid ar ôl i chi gofrestru, rhaid i chi anfon e-bost atom yn:

Myfyrwyr cartref
Rhaglenni yng Nghymru - registry@uwtsd.ac.uk
Rhaglenni yn Llundain - londonstudentservices@uwtsd.ac.uk
Rhaglenni yn Birmingham - birminghamstudentservices@uwtsd.ac.uk

Myfyrwyr Rhyngwladol

Rhaglenni yng Nghymru: WalesInt@uwtsd.ac.uk
Rhaglenni yn Llundain: LondonInt@uwtsd.ac.uk
Rhaglenni yn Birmingham: BirminghamInt@uwtsd.ac.uk

2.2 Rydym yn cadw'r hawl i derfynu ein contract â chi os daw i'r amlwg maes o law eich bod wedi rhoi unrhyw wybodaeth anghyflawn, anghywir neu gamarweiniol i ni.

# 3. Cyhuddiadau troseddol, euogfarnau troseddol a gwiriadau'r DBS

3.1 Gofynnwn i chi roi gwybod i ni ar unwaith os cewch unrhyw euogfarnau troseddol ar unrhyw adeg ar ôl i chi gofrestru gyda ni tan i chi gwblhau eich rhaglen.

3.2 Os ydy'ch rhaglen yn cael ei rheoleiddio'n broffesiynol neu mae'n amodol ar wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), rhaid i chi roi gwybod i ni ar unwaith os bydd eich amgylchiadau'n newid o ran addasrwydd i ymarfer neu DBS. Mae hyn yn cynnwys rhoi gwybod i ni ar unwaith am unrhyw gyhuddiadau troseddol rydych yn eu hwynebu ac unrhyw euogfarnau troseddol.

3.3 Chi sy'n gyfrifol am sicrhau bod gennych dystysgrif DBS ddilys yn ei lle ar ddechrau eich rhaglen a rhaid i chi ei rhoi ar gael i ni ar gais.

3.4 Os nad ydy'ch rhaglen yn cael ei rheoleiddio'n broffesiynol neu nid yw'n amodol ar wiriadau DBS, ac rydych yn dewis astudio modwl neu ymgymryd â lleoliad sy'n amodol ar wiriadau DBS, chi sy'n gyfrifol am sicrhau bod gennych dystysgrif DBS ddilys yn ei lle ar ddechrau'r modwl neu'r lleoliad a rhaid i chi ei rhoi ar gael i ni ar gais.

## 4. Cyfathrebu â PCYDDS

4.1 Wrth gofrestru caiff cyfrif e-bost y Brifysgol ei bennu ar eich cyfer a mynediad i'r porth myfyrwyr ar MyTSD. Bydd yr holl gyfathrebu gennym ni'n cael ei anfon drwy'r sianeli hyn a rhaid i chi eu gwirio'n rheolaidd.

4.2 Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd gohebiaeth Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg a gohebiaeth Saesneg yn cael ei hateb yn Saesneg. Yr un fydd ein hamser targed ar gyfer ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg.

## 5. Rheoliadau, Polisïau a Gweithdrefnau PCYDDS

5.1 Rydych yn cytuno i gydymffurfio â holl Reoliadau, Polisïau a Gweithdrefnau PCYDDS.

5.2 Chi sy'n gyfrifol am ymgyfarwyddo â'r rheoliadau, y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n berthnasol i chi. Yn benodol:

5.2.1 Mae ein Siarter Myfyrwyr yn esbonio'r cyfrifoldebau sydd gan PCYDDS i'w myfyrwyr a'r cyfrifoldebau sydd gennych chi tra byddwch yn astudio gyda ni;

5.2.2 Mae ein Llawlyfr Ansawdd Academaidd yn disgrifio'r rheoliadau academaidd, polisïau a gweithdrefnau sy'n berthnasol i'r holl fyfyrwyr, er enghraifft:

5.2.3 Disgrifir ein gofynion ynghylch eich ymgysylltiad academaidd, cynnydd academaidd a phresenoldeb yn y Polisi Ymgysylltu ac ym Mhenodau 6-8 a Phennod 12 o'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd. Os na fyddwch yn bodloni'r gofynion hyn, efallai na chaniateir i chi symud ymlaen yn eich rhaglen.

5.2.4 Mae ein rheoliadau ynghylch camymddwyn academaidd, yn cynnwys llên-ladrad a'r prosesau rydym yn eu defnyddio i'w ddarganfod, i'w gweld yn ein Polisi Camymddwyn Academaidd (Pennod 12 o'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd). Os na fyddwch yn dilyn y rheoliadau hyn, mae'n bosibl y bydd angen i ni gymryd camau disgyblu a gallech chi wynebu cosbau academaidd a/neu gael eich diarddel. Drwy gofrestru gyda ni, rydych yn awdurdodi'ch gwaith i gael ei wirio yn erbyn cronfa ddata'r Gwasanaeth Canfod Llên-ladrad.

5.2.5 Mae ein Polisi Apeliadau Academaidd (Pennod 12 o'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd) yn disgrifio sut gallwch apelio ynghylch penderfyniad academaidd rydym wedi'i wneud amdanoch chi a sut byddwn yn ymateb.

5.2.6 Mae ein gofynion ynghylch ymddygiad myfyrwyr yn cael eu disgrifio yn ein Cod Ymddygiad Myfyrwyr a'n Polisi Camymddwyn Anacademaidd (Pennod 12 o'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd). Os na fyddwch yn dilyn y rheoliadau hyn, mae'n bosibl y byddwn yn cymryd camau disgyblu a gallech chi wynebu cosbau a/neu gael eich diarddel.

5.2.7 Mae ein Polisi a Gweithdrefn Cymorth i Astudio (Pennod 12 o'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd) yn disgrifio'r camau y gallwn eu cymryd os oes pryderon ynghylch eich iechyd a'ch llesiant neu ynghylch eich gallu i astudio ar eich rhaglen.

5.2.8 Mae ein Polisi Addasrwydd i Ymarfer (Pennod 12 o'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd) yn berthnasol i fyfyrwyr ar raglenni â ffocws proffesiynol ac mae'n disgrifio'r camau y gallwn eu cymryd os oes pryderon ynghylch eich addasrwydd i ymarfer.

5.2.9 Mae ein Fframwaith Lleoliadau Myfyrwyr (Pennod 11 o'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd) yn disgrifio ein gofynion o ran trefnu unrhyw leoliad a allai fod yn rhan o'ch rhaglen ac ymddygiad yn ystod y lleoliad.

5.2.10 Mae ein Polisi Eiddo Deallusol: Myfyrwyr (Pennod 12 o'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd) yn disgrifio ein rheolau'n ymwneud ag eiddo deallusol a grëwyd gan ein myfyrwyr.

5.2.11 Mae ein Polisi Diogelu (Pennod 12 o'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd) yn disgrifio ein gweithdrefnau a'n cyfrifoldebau o ran ymateb i bryderon ynghylch diogelu.

5.2.12 Disgrifir ein rheoliadau ynghylch defnyddio TG yn PCYDDS yn ein Polisi Defnydd Derbyniol TG. Os na fyddwch yn dilyn y rheoliadau hyn, gallwn gymryd camau disgyblu a gallech wynebu cosbau a/neu gael eich diarddel.

5.2.13 Disgrifir ein rheoliadau ynghylch ysmygu ar safleoedd y Brifysgol yn ein Polisi Di-fwg Myfyrwyr. Os na fyddwch yn dilyn y rheoliadau hyn, gallwn gymryd camau disgyblu a gallech wynebu cosbau a/neu gael eich diarddel.

5.2.14 Nodir ein rheoliadau ynghylch talu symiau sy'n ddyledus i ni ar dudalennau Ffioedd a Chyllid Myfyrwyr ein gwefan. Os na fyddwch yn talu arian sydd arnoch i ni, gallwn gymryd camau i adennill y ddyled a gallech wynebu cosbau a/neu gael eich diarddel.

5.3 Os byddwch yn byw yn llety PCYDDS, bydd telerau ac amodau preswyl yn berthnasol i chi hefyd.

# 6. Gwneud newidiadau

***Newidiadau mewn rhaglenni astudio***

6.1 Seilir ein cynnig ar gyfer lle i astudio yn PCYDDS ar y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael am y rhaglen ar y dyddiad y gwneir y cynnig. Mae'r wybodaeth am y rhaglen ar ein gwefan yn cynnwys rhestr o'r modylau a allai fod ar gael ar gyfer eich rhaglen. Nid ydym yn gwarantu y caiff modylau opsiynol eu rhedeg nac y byddant ar gael i'r holl fyfyrwyr. Mae'n bosibl y caiff eich dewis o fodylau ei gyfyngu gan gyfyngiadau ar amserlennu, staffio, cyfleusterau, neu nifer y lleoedd ar y modwl.

6.2 Byddwn yn ymdrechu i gyflwyno ein rhaglenni yn y ffordd y cânt eu disgrifio ar ein gwefan am y flwyddyn academaidd rydych yn astudio ynddi gyda ni. Mae gennym yr hawl i wneud newidiadau rhesymol mewn rhaglen pan fo eu hangen er mwyn ein helpu i roi gwell profiad addysgol i fyfyrwyr. Rydym yn gwneud hyn i sicrhau bod y cwricwlwm, yr addysgu a'r dulliau dysgu a dulliau asesu'n gyfredol, i gynnal safonau academaidd a chyfoethogi ansawdd y

cyfleoedd dysgu i fyfyrwyr. Rydym yn adolygu ein rhaglenni'n ffurfiol bob blwyddyn ac yn eu hail-gymeradwyo (neu eu 'hail-ddilysu') o dro i dro.

6.3 Yn achos rhaglenni sy'n amodol ar eu cymeradwyo neu eu hail-ddilysu, cânt eu labelu felly ar ein gwefan. Yn aml bydd adolygiadau blynyddol yn arwain at **newidiadau mân neu 'nad ydynt o bwys'** na fydd yn effeithio ar natur, ffocws neu ddiben y rhaglen. Fel arfer byddwn yn gwneud newidiadau dim ond os nad yw effaith gyffredinol y newid yn sylweddol ac os yw naill ai'n niwtral neu o fantais i fyfyrwyr. Fodd bynnag, weithiau ni fydd modd osgoi **newidiadau mawr** yn ystod yr adolygiad blynyddol ac ar adegau eraill er mwyn adnewyddu cynnwys rhaglen neu oherwydd materion annisgwyl megis y staff sydd ar gael, goruchwylwyr ymchwil sydd ar gael, niferoedd myfyrwyr neu'r adnoddau sydd ar gael. Caiff newidiadau mawr eu gwneud hefyd yn aml pan fydd rhaglen yn cael ei hail-ddilysu.

6.4 Os bydd angen i ni wneud **newidiadau mawr**, byddwn yn ceisio eu cadw i'r lleiaf posibl. Os ydych wedi derbyn cynnig, byddwn yn cysylltu â chi'n ysgrifenedig cyn gynted ag y gallwn yn rhesymol, os byddwn yn gwneud newidiadau mawr yn y wybodaeth am y rhaglen ar ein gwefan neu mewn gwybodaeth arall rydym wedi'i rhoi i chi. Byddwn yn eich gwahodd i gadarnhau eich bod yn derbyn y newidiadau naill ai ymlaen llaw neu wrth gofrestru.

6.5 Os byddwn yn tynnu'n ôl neu'n gohirio rhaglen rydych wedi gwneud cais amdani, byddwn yn cynnig trefniadau amgen i chi pan allwn wneud hynny'n rhesymol, yn amodol (fel y bo'n berthnasol) ar leoedd sydd ar gael ac arnoch chi'n bodloni unrhyw amodau perthnasol o ran mynediad, amodau academaidd neu amodau eraill. Er enghraifft, efallai y byddwn yn cynnig rhaglen arall addas, neu ad-daliad ffioedd a'ch blaendal os ydych wedi talu un, neu efallai y byddwn yn cynnig yn rhesymol i'ch helpu i sicrhau lle gyda darparwr arall. Os ydych yn ymgeisydd rhyngwladol, gallwn dalu costau ychwanegol rydych wedi mynd iddynt. Gall fod cyfyngiadau neu amodau ar y cynnig.

6.6 Os ydych wedi cofrestru gyda ni eisoes, byddwn yn trafod unrhyw newidiadau mawr sy'n effeithio arnoch chi ymlaen llaw ac yn gofyn am eich barn. Byddwn yn cysylltu â chi'n ysgrifenedig am ein cynlluniau. Ein nod bob amser fydd cynnal profiad myfyrwyr o ansawdd uchel. Os nad ydych yn fodlon ar y newidiadau, byddwn yn cynnig cyfle i chi dynnu'n ôl o'ch rhaglen. Os dymunwch hynny, byddwn yn rhoi cymorth rhesymol i chi i drosglwyddo i raglen arall gyda ni neu i ddarparwr arall.

6.7 Darperir mwy o wybodaeth am y modd rydym yn **diffinio newidiadau mân a mawr** a sut byddwn yn cyfathrebu â chi amdanynt yn Atodiad 1 i'r Cytundeb hwn.

***Newidiadau mewn Rheoliadau, Polisïau a Gweithdrefnau***

6.8 Mae gennym yr hawl i ychwanegu at ein Rheoliadau, Polisïau a Gweithdrefnau, i'w dileu neu wneud newidiadau ynddynt, ac unrhyw godau neu weithdrefnau cysylltiedig. Fel arfer byddwn yn gwneud newidiadau am un neu fwy o'r rhesymau canlynol:

6.8.1 sicrhau bod ein Rheoliadau, Polisïau a Gweithdrefnau'n addas i'r diben;

6.8.2 ein helpu i gyflwyno addysg yn gywir;

6.8.3 adlewyrchu newidiadau yn yr amgylchedd allanol, yn cynnwys newidiadau cyfreithiol neu reoleiddiol, newidiadau mewn cyllid neu drefniadau ariannol neu newidiadau mewn polisi, gofynion neu gyfarwyddyd llywodraeth;

6.8.4 ymgorffori cyfarwyddyd neu arfer gorau'r sector;

6.8.5 ymgorfforri adborth gan fyfyrwyr; a/neu

6.8.6 rhoi cymorth o ran eglurder neu gysondeb dulliau.

6.9 Byddwn yn ymgynghori ag Undeb y Myfyrwyr cyn gwneud unrhyw newidiadau mawr mewn Rheoliadau, Polisïau a Gweithdrefnau sy'n effeithio ar fyfyrwyr.

6.10 Fel arfer bydd unrhyw newidiadau'n dod i rym ar ddechrau'r flwyddyn academaidd nesaf. Gall rhai gael eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn academaidd os ystyriwn fod hynny er budd y myfyrwyr, neu os ydy'n ofynnol yn ôl y gyfraith neu mewn amgylchiadau eithriadol eraill. Byddwn yn cymryd pob cam rhesymol i leihau'r tarfu ar fyfyrwyr

6.11 Rhoddir y Rheoliadau, Polisïau a Gweithdrefnau wedi'u diweddaru ar gael ar ein gwefan. Gallant hefyd gael eu hysbysebu drwy ddulliau eraill er mwyn eich gwneud yn ymwybodol o unrhyw newidiadau mawr.

# 7. Digwyddiadau tu allan i'n rheolaeth

7.1 Byddwn yn gwneud popeth a allwn yn rhesymol i ddarparu'r rhaglen, gwasanaethau a chyfleusterau addysgol a rhai eraill cysylltiedig fel y'i nodir yn y wybodaeth berthnasol ar ein gwefan neu mewn dogfennau eraill rydym wedi'u rhoi i chi. Fodd bynnag, ni fyddwn yn atebol nac yn gyfrifol am unrhyw fethiant i gyflawni, neu oedi o ran cyflawni, unrhyw rai o'n rhwymedigaethau dan y contract a achosir gan **ddigwyddiad tu hwnt i'n rheolaeth.**

7.2 Mae digwyddiad tu hwnt i'n rheolaeth yn golygu unrhyw weithred neu ddigwyddiad tu hwnt i'n rheolaeth resymol yn cynnwys y canlynol yn ddigyfyngiad:

7.2.1 streiciau, cau allan neu weithredu diwydiannol arall gan ein staff neu gan drydydd bartïon;

7.2.2 cynnwrf sifil, terfysg, ymosodiad, ymosodiad gan derfysgwyr neu fygythiad o ymosodiad gan derfysgwyr, rhyfel (boed hwnnw wedi'i ddatgan ai peidio) neu fygythiad neu baratoi am ryfel, tân, ffrwydrad, storm, llifogydd, daeargryn, ymsuddiant, neu drychineb naturiol arall neu 'weithred duw';

7.2.3 methiant rhwydweithiau telegyfathrebu cyhoeddus neu breifat;

7.2.4 pandemig, epidemig ac unrhyw gyfyngiadau neu ofynion y gellid eu gorfodi ar unrhyw lywodraeth neu awdurdod perthnasol, a bydd yn cynnwys, er enghraifft, unrhyw darfu a achosir yn sgil tarfu parhaus gan Covid-19.

7.3 Os bydd digwyddiad tu allan i'n rheolaeth sy'n effeithio ar gyflawni ein rhwymedigaethau i chi dan y Cytundeb hwn:

7.3.1 byddwn yn cysylltu â chi cyn gynted ag y gallwn yn rhesymol i'ch hysbysu am y canlynol;

7.3.2 byddwn yn gwneud unrhyw newidiadau yn y rhaglen, ein cyfleusterau neu'r Cytundeb yr ystyriwn sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion gan lywodraeth neu er mwyn lliniaru fel arall effaith digwyddiad o'r fath arnoch chi;

7.3.3 caiff ein rhwymedigaethau dan y Cytundeb eu hatal dros dro a chaiff yr amser i gyflawni ein rhwymedigaethau ei ymestyn gydol y digwyddiad sydd tu hwnt i'n rheolaeth.

7.4 Gallai'r newidiadau a wnawn gynnwys y canlynol, er enghraifft:

7.4.1 cynnig cyfle i chi, pan fo'n rhesymol bosibl, drosglwyddo i raglen arall;

7.4.2 gohirio dyddiad cychwyn eich rhaglen;

7.4.3 cyflwyno'ch rhaglen mewn ffordd wahanol, o leoliad arall neu ar-lein, neu ar amser arall;

7.4.4 cyflwyno fersiwn wedi'i addasu o'r un rhaglen;

7.4.5 eich helpu i drosglwyddo i gwblhau'ch rhaglen gyda darparwr arall;

7.4.6 cyflwyno gwasanaethau a chyfleusterau eraill mewn ffordd wahanol, o leoliad gwahanol neu ar-lein;

7.4.7 cynnig ad-daliad neu iawndal i chi pan fo'n briodol.

7.5 Os nad ydych yn fodlon ar y camau a gymerwyd i liniaru'r tarfu a achoswyd, gallwch derfynu'r Cytundeb hwn a/neu wneud cwyn dan ein Polisi Cwynion Myfyrwyr.

7.6 Pan fo'n angenrheidiol, yn sgil unrhyw rai o'r digwyddiadau uchod, cau neu derfynu neu beidio â chyflwyno'ch rhaglen, byddwn yn gwneud popeth a allwn yn rhesymol i'ch helpu i drosglwyddo i ddarparwr arall a byddwn yn ad-dalu ffioedd yn unol â'n polisi ac amserlen ad-daliadau.

## 8. Undeb y Myfyrwyr

8.1 Pan fyddwch yn cofrestru gyda ni, byddwch yn dod yn aelod o Undeb y Myfyrwyr yn awtomatig. Os penderfynwch nad ydych yn dymuno bod yn aelod, rhaid i chi gysylltu ag Undeb y Myfyrwyr i ganslo'ch aelodaeth.

8.2 Mae Cod Ymarfer PCYDDS ar Undeb y Myfyrwyr yn disgrifio sut mae ein corff llywodraethu'n cyflawni'i gyfrifoldebau dan Ddeddf Addysg 1994. Hefyd mae Cytundeb Perthynas rhwng PCYDDS ac Undeb y Myfyrwyr sy'n cael ei adolygu'n flynyddol.

## 9. Diogelu Data

9.1 Drwy ymrwymo i'r Cytundeb hwn, rydych yn rhoi cydsyniad i ni storio a phrosesu eich gwybodaeth bersonol yn unol â Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018.

9.2 Mae manylion ynghylch sut rydym yn defnyddio ac yn diogelu eich data ar gael o fewn ein Polisi Diogelu Data, Datganiad Preifatrwydd Ymgeiswyr a Datganiad Preifatrwydd Myfyrwyr. Mae'r Datganiad Preifatrwydd Ymgeiswyr a'r Datganiad Preifatrwydd Myfyrwyr yn disgrifio'ch hawliau mewn perthynas â'r data sydd gennym.

# 10. Eich hawliau canslo pan fyddwch yn derbyn ein cynnig

10.1 Os byddwch yn derbyn ein cynnig, byddwch yn derbyn y Cytundeb hwn. Mae gennych hawl gyfreithiol i newid eich meddwl a chanslo'ch cytundeb o fewn 14 diwrnod i dderbyn ein cynnig. Nid oes rhaid i chi roi rheswm. Gelwir yr 14 diwrnod hwn yn **gyfnod canslo statudol**. Gallwch ganslo drwy gwblhau a dychwelyd y ffurflen ganslo sy'n atodol fel **Atodiad 2** i'r Cytundeb hwn. Os ydych yn ymgeisydd o'r DU, gallwch hefyd ein ffonio ar 0300 323 1828 neu anfon e-bost atom yn: registry@uwtsd.ac.uk. Os ydych wedi gwneud cais i ni drwy UCAS, rhaid i chi hefyd gysylltu'n uniongyrchol ag UCAS. Os ydych yn ymgeisydd rhyngwladol, dylech anfon e-bost atom i'r cyfeiriad perthnasol isod:
Derbyniadau Rhyngwladol Birmingham: BirminghamInt@uwtsd.ac.uk
Derbyniadau Rhyngwladol Llundain: LondonInt@uwtsd.ac.uk
Derbyniadau Rhyngwladol Cymru: WalesInt@uwtsd.ac.uk

10.2 Os byddwch yn canslo'r Cytundeb o fewn 14 diwrnod i dderbyn ein cynnig ac rydych eisoes wedi talu blaendal neu wneud taliad arall i ni, byddwn yn ad-dalu'r taliadau'n llawn gan ddefnyddio'r un ffordd o dalu ag y defnyddioch am y trafodiad cychwynnol (oni bai eich bod wedi cytuno fel arall yn benodol).

10.3 Os byddwch yn derbyn ein cynnig ond wedyn yn penderfynu eich bod eisiau gohirio cychwyn yn PCYDDS, rhaid i chi gysylltu â ni drwy e-bostio registry@uwtsd.ac.uk neu os ydych yn ymgeisydd rhyngwladol, dylech e-bostio'r tîm perthnasol isod:
Derbyniadau Rhyngwladol Birmingham: BirminghamInt@uwtsd.ac.uk
Derbyniadau Rhyngwladol Llundain: LondonInt@uwtsd.ac.uk
Derbyniadau Rhyngwladol Cymru: WalesInt@uwtsd.ac.uk

Gallwn gytuno i ohirio eich lle neu gallwn ofyn i chi ymgeisio eto. Os bydd y ffioedd dysgu ar gyfer eich rhaglen astudio yn cynyddu cyn i chi ddechrau yn PCYDDS, efallai y byddwn yn codi'r ffi uwch arnoch. Efallai na fyddwn yn ad-dalu eich blaendal oni bai eich bod wedi dweud wrthym eich bod yn dymuno gohirio cychwyn o fewn 14 diwrnod i dderbyn ein cynnig.

10.4 Os ydy'ch rhaglen i fod i ddechrau o fewn 14 diwrnod i'r dyddiad rydych yn derbyn ein cynnig, wedyn drwy dderbyn y cynnig rydych yn cytuno'n benodol y bydd ein gwasanaeth i chi'n dechrau o fewn y cyfnod canslo statudol. Os byddwch wedyn yn penderfynu canslo'r Cytundeb o fewn y cyfnod canslo statudol, bydd rhaid i chi dalu cyfran o ffioedd y rhaglen (i dalu am y cyfnod o ddechrau'ch rhaglen i'r dyddiad canslo).

10.5 Os ydym wedi rhoi gwybod i chi ein bod yn gwneud newidiadau mewn rhaglen yr ydych wedi derbyn cynnig ar ei chyfer, mae gennych yr hawl i dynnu'ch cais yn ôl a therfynu'r Cytundeb neu drosglwyddo'ch cais i raglen arall yn PCYDDS. I ymgeiswyr rhyngwladol, gall hyn fod yn amodol ar amodau a gofynion fisâu.

10.6 Gallwch derfynu'r Cytundeb ar unwaith drwy roi rhybudd ysgrifenedig i ni os ydych wedi derbyn ein cynnig gan ddefnyddio system UCAS fel eich dewis 'Wrth Gefn' ac rydych yn penderfynu astudio yn sefydliad eich dewis 'Pendant'.

## 11. Eich hawliau i ganslo a thynnu'n ôl ar ddechrau eich rhaglen a, lle bo'n berthnasol, ar ddechrau pob lefel ddilynol o'r rhaglen y byddwch yn cofrestru arni

Yn ogystal â'ch hawliau canslo statudol ar ôl i chi dderbyn ein cynnig, mae gennych hawl i dynnu'n ôl o'ch rhaglen cyn i chi gofrestru neu i dynnu'n ôl o fewn 14 diwrnod ar ôl dyddiad cychwyn eich rhaglen. Lle bo'n berthnasol, mae gennych hefyd hawl i dynnu'n ôl o fewn 14 diwrnod ar ôl dyddiad dechrau unrhyw lefel ddilynol o'r rhaglen y byddwch yn cofrestru arni. Nid oes rhaid i chi roi rheswm. Gallwch ganslo drwy gwblhau a dychwelyd y ffurflen ganslo sy'n atodol fel Atodiad 2 i'r Cytundeb hwn. Os ydych yn ymgeisydd o'r DU, gallwch hefyd ein ffonio ar 0300 323 1828 neu anfon e-bost atom yn: registry@uwtsd.ac.uk. Os ydych yn ymgeisydd rhyngwladol, dylech anfon e-bost i'r cyfeiriad perthnasol isod:
Derbyniadau Rhyngwladol Birmingham: BirminghamInt@uwtsd.ac.uk
Derbyniadau Rhyngwladol Llundain: LondonInt@uwtsd.ac.uk
Derbyniadau Rhyngwladol Cymru: WalesInt@uwtsd.ac.uk

11.1 Os byddwch yn tynnu'n ôl o fewn 14 diwrnod i ddyddiad cychwyn y rhaglen, byddwn yn ad-dalu unrhyw ffioedd rydych wedi'u talu. Ni fyddwn yn ad-dalu unrhyw flaendal a daloch pan dderbynioch ein cynnig. Lle bo'n berthnasol, os byddwch yn tynnu'n ôl o fewn 14 diwrnod ar ôl dyddiad dechrau unrhyw lefel ddilynol o'r rhaglen, byddwn yn ad-dalu unrhyw ffioedd rydych wedi'u talu mewn perthynas â'ch cofrestriad ar y lefel astudio honno ar gyfer y flwyddyn academaidd honno.

11.2 Os byddwch yn dewis tynnu'n ôl neu atal eich astudiaethau dros dro, chi sy'n gyfrifol am sicrhau eich bod yn ymwybodol o unrhyw oblygiadau ariannol a nodir gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr neu unrhyw noddwr sydd gennych.

11.3 Os ydych yn ymgeisydd rhyngwladol, bydd tynnu'n ôl yn cael effaith ar ein gallu i'ch noddi fel myfyriwr rhyngwladol yn y DU.

## 12. Eich hawliau terfynu ar ôl 14 diwrnod

12.1 Heb effeithio ar unrhyw hawl neu rwymedi arall sydd ar gael, gallwch derfynu'r Cytundeb hwn ar unwaith drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i ni os:

12.1.1 byddwn yn torri telerau'r Cytundeb mewn modd difrifol (sylweddol) ac nid ydym wedi gallu rhoi pethau'n iawn o fewn cyfnod rhesymol yn unol â'n gweithdrefnau;

12.1.2 bydd hawl terfynu'n codi yn sgil digwyddiad tu hwnt i'n rheolaeth;

12.1.3 nad ydych yn fodlon ar newid mawr rydym wedi'i wneud yn eich rhaglen neu yn y Cytundeb.

12.2 Os ydych yn terfynu'r Cytundeb yn hwyrach na 14 diwrnod ar ôl dyddiad cychwyn eich rhaglen, rhaid i chi hysbysu'r Brifysgol drwy lenwi'r ffurflen tynnu'n ôl sydd ar gael yn MyTSD.

## 13. Ein hawliau terfynu

13.1 Heb effeithio ar unrhyw hawl neu rwymedi arall sydd ar gael i ni, gallwn atal y Cytundeb hwn dros dro neu ei derfynu drwy ysgrifennu atoch os ydym wedi penderfynu, ar ôl dilyn y prosesau a ddisgrifir yn ein Rheoliadau, Polisïau a Gweithdrefnau:

13.1.1 eich bod wedi methu â rhoi tystiolaeth foddhaol i ni eich bod wedi bodloni gofynion mynediad eich rhaglen;

13.1.2 eich bod wedi rhoi gwybodaeth i ni sy'n anghywir neu'n gamarweiniol (gweler uchod, Cywirdeb Gwybodaeth);

13.1.3 nad ydych wedi rhoi tystysgrif DBS ddilys i ni pan oedd hynny'n ofynnol (gweler uchod, Cyhuddiadau troseddol, euogfarnau troseddol a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd);

13.1.4 bod yn rhaid i chi adael eich rhaglen am resymau academaidd neu ddisgyblu (gweler uchod; Llawlyfr Ansawdd Academaidd, Penodau 6-8 a Phennod 12; Polisi Camymddwyn Academaidd; Cod Ymarfer Myfyrwyr; Polisi Camymddwyn Anacademaidd; Polisi Addasrwydd i Ymarfer; Polisi Defnydd Derbyniol TG; Polisi Di-fwg Myfyrwyr);

13.1.5 eich bod bellach yn analluog i reoli eich materion eich hun neu gwblhau eich astudiaethau (gweler uchod, Polisi a Gweithdrefn Cymorth i Astudio; Polisi Addasrwydd i Ymarfer);

13.1.6 eich bod chi (neu drydydd parti enwebedig perthnasol) wedi methu â thalu unrhyw swm sy'n ddyledus dan delerau'r Cytundeb (gweler uchod, Talu Ffioedd);

13.1.7 eich bod wedi torri'r Cytundeb mewn modd difrifol (sylweddol) ac (os oes modd unioni tor cytundeb o'r fath) rydych yn methu unioni'r tor cytundeb hwnnw o fewn cyfnod o 28 diwrnod ar ôl cael rhybudd ysgrifenedig i wneud hynny;

13.1.8 eich bod wedi methu â rhoi tystiolaeth foddhaol i ni eich bod wedi bodloni'r gofynion ar gyfer cyhoeddi Cadarnhad Derbyn i Astudio (CAS) (mae hyn yn berthnasol i fyfyrwyr rhyngwladol sy'n ceisio nawdd ar gyfer mewnfudo dan lwybr fisa myfyrwyr yn unig);

13.1.9 eich bod wedi torri un o delerau'ch fisa cyfredol (mae'n berthnasol i fyfyrwyr rhyngwladol sydd wedi cofrestru ac sydd angen fisa i astudio yn y DU yn unig).

13.2 Gallwn hefyd atal y Cytundeb hwn dros dro neu'i derfynu ar unwaith drwy ysgrifennu atoch os:

13.2.1 ydych wedi methu â chofrestru;

13.2.2 ydych yn fyfyriwr rhyngwladol y mae'n rhaid i chi gael fisa i astudio yn y DU, mae'ch fisa wedi dod i ben neu wedi'i ddirymu ac rydych wedi methu â rhoi tystiolaeth i ni o gais am fisa newydd;

13.2.3 ydym wedi colli ein hawl gyfreithiol neu reoleiddiol neu gymeradwyaeth berthnasol i ddarparu'ch rhaglen;

13.2.4 bydd hawl terfynu'n codi yn sgil digwyddiad tu hwnt i'n rheolaeth.

13.3 Os byddwn yn terfynu'r Cytundeb am reswm sy'n ymwneud â'ch camymddwyn neu'ch gweithredoedd, byddwch yn parhau'n gyfrifol am unrhyw ffioedd dysgu ac eraill sy'n ddyledus dan y Cytundeb.

## 14. Cwynion myfyrwyr

14.1 Mae ein Polisi Cwynion Myfyrwyr (Pennod 12 o'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd) yn rhoi gwybodaeth ynglŷn â sut i wneud cwyn ynghylch safon y gwasanaeth a ddarparwn a sut byddwn yn ymateb. Os ydych wedi gwneud cwyn i ni ac rydych yn parhau'n anfodlon ar y canlyniad, mae gennych yr hawl i wneud cais am adolygiad gan Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (OIA) dros Addysg Uwch gan ddefnyddio'r gweithdrefnau a gyhoeddir ar wefan y Swyddfa honno: www.oiahe.org.uk

## 15. Cyffredinol

15.1 Mae'r Cytundeb Myfyrwyr hwn yn gontract rhwng PCYDDS ('ni') a'r myfyriwr ('chi'). Ni fydd gan unrhyw berson arall unrhyw hawliau i orfodi unrhyw rai o'i delerau.

15.2 Mae pob un o baragraffau'r Cytundeb hwn yn gweithredu ar wahân. Os bydd unrhyw lys neu awdurdod perthnasol yn penderfynu bod unrhyw rai ohonynt yn anghyfreithlon, bydd y paragraffau sy'n weddill yn parhau mewn grym ag effaith gyflawn.

15.3 Os byddwn yn methu â mynnu eich bod yn cyflawni unrhyw rai o'ch rhwymedigaethau dan y telerau hyn neu os na fyddwn yn gorfodi ein hawliau yn eich erbyn, neu os byddwn yn oedi wrth wneud hynny, ni fydd hynny'n golygu ein bod wedi hepgor ein hawliau yn eich erbyn ac ni fydd yn golygu nad oes rhaid i chi gydymffurfio â'r rhwymedigaethau hynny.

15.4 Cyfraith Loegr sy'n rheoli'r Cytundeb hwn. Rydym ni a chi'n cytuno yr ymdrinnir ag unrhyw faterion sy'n codi mewn cyswllt â'r Cytundeb gan Lysoedd Cymru a Lloegr. Fodd bynnag, os ydych yn breswylydd Gogledd Iwerddon, gallwch hefyd gymryd camau yn llysoedd Gogledd Iwerddon, ac os ydych yn breswylydd yr Alban, gallwch hefyd gymryd camau yn llysoedd yr Alban.

# Atodiad 1 – Newidiadau mawr a mân a chyfathrebu

Mae'r lle a gynigir i chi i astudio yn y Brifysgol yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael am y Rhaglen Astudio, fel y mae ar ddyddiad derbyn eich cynnig. Caiff ymgeiswyr wybodaeth megis y modylau craidd ac arwydd o fodylau opsiynol ar dudalennau cyrsiau gwefan y Brifysgol.

Fodd bynnag, efallai y bydd angen newid gwybodaeth rhaglenni, gan gynnwys disgrifiad rhaglenni, cynnwys, dull a/neu leoliad darparu a/neu amserlen, gwasanaethau, cyfleusterau a/neu Siarter Frenhinol y Brifysgol, Statudau, Ordinhadau, Rheoliadau a Chanllaw Academaidd.
Ymhlith y rhesymau dros newidiadau mae'r canlynol, ond heb eu cyfyngu i'r rhain:

- bodloni gofynion corff achredu, proffesiynol, statudol a/neu reoleiddio;
- ymateb i arfer da'r sector neu brosesau gwella ansawdd;
- cadw rhaglenni'n gyfoes drwy ddiweddaru arferion, modylau neu feysydd astudio;
- o ganlyniad i amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth resymol y Brifysgol, er enghraifft aelod allweddol o staff yn gadael y Brifysgol neu'n methu ag addysgu (lle bo'r rhaglen neu fodwl yn ddibynnol ar arbenigedd yr unigolyn yna);
- gwella Ystadau a Chyfleusterau'r Brifysgol ac adleoli arfaethedig Ysgolion;
- Amgylchiadau eraill y tu hwnt i reolaeth resymol y Brifysgol gan gynnwys gweithredu diwydiannol, tywydd garw, pandemigau iechyd cyhoeddus, tân, anhrefn sifil, aflonyddwch gwleidyddol, cyfyngiadau llywodraeth neu bryder difrifol am drosglwyddo clefyd trosglwyddadwy sy'n gwneud rhaglen yn anniogel i'w darparu.

Efallai y bydd angen newid rhaglenni neu fodylau hefyd os na chyrhaeddwyd y lleiafswm o fyfyrwyr y mae eu hangen i sicrhau profiad addysgol da neu brofiad da i'r myfyrwyr. Sylwch, o dan rai amgylchiadau eithriadol, gellir tynnu rhaglenni yn ôl (cyn iddynt gychwyn) am y rheswm hwn.

Os gwneir newidiadau yn eich rhaglen ar ôl i chi dderbyn eich cynnig, bydd y Brifysgol yn cymryd camau rhesymol i roi gwybod i chi am y newidiadau hynny.

Os caiff eich rhaglen ei thynnu'n ôl neu os gwneir newidiadau sylfaenol yn eich rhaglen ar ôl i chi dderbyn eich cynnig, bydd y Brifysgol yn cymryd camau rhesymol i roi gwybod i chi'n gynnar a phan fo'n berthnasol, gynnig rhaglen amgen addas yn y Brifysgol. Hefyd bydd hawl gennych i dynnu'n ôl o'ch rhaglen a gwneud cais am ad-daliad neu ad-daliad rhannol o unrhyw ffioedd dysgu rydych wedi'u talu.

Mae PCYDDS yn ystyried bod yr enghreifftiau isod yn cael eu diffinio'n **newidiadau mawr**:

- newid yn nheitl y rhaglen neu'r dyfarniad, neu gyflwyno dyfarniad newydd o fewn rhaglen;
- newid yn y dull darparu (amser llawn/rhan-amser/dysgu cyfunol/iaith ac ati);
- newid yn y man cyflwyno (campws gwahanol, oddi ar y safle neu allgymorth);
- cyflwyno llwybr newydd a enwir o fewn dyfarniad sydd wedi'i gymeradwyo;
- cyflwyno deunydd newydd neu fodylau newydd sy'n arwain at newid o bwys;
- newid sy'n dod â gofynion ychwanegol o ran adnoddau, yn cynnwys unrhyw ychwanegiadau neu newidiadau yn y dyddiadau cychwyn.

Mae PCYDDS yn ystyried bod y sefyllfaoedd isod yn cael eu diffinio'n **newidiadau mân:**
- newidiadau yn y deilliannau dysgu, y fethodoleg asesu, neu gynnwys dangosol modylau presennol;
- newid yn nheitl modwl sydd wedi'i gymeradwyo;

- ychwanegu modwl sydd wedi'i gymeradwyo i lwybr a enwir;
- cyflwyno deunydd newydd neu fodylau newydd nad ydynt yn arwain at newid o bwys yn y rhaglen;
    - os byddai newid o bwys yn digwydd, câi'r gweithdrefnau ar gyfer addasiadau mawr neu ail-ddilysu eu dilyn;
- mân newidiadau i'r strwythur;
- cynnig modwl sydd wedi'i gymeradwyo o fewn y rhaglen mewn iaith wahanol.

Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod nad yw'r rhestr hon yn un gynhwysfawr a gall fod enghreifftiau eraill o newidiadau mawr neu fân.

# Atodiad 2 – Ffurflen ganslo

Dylid llenwi'r ffurflen hon naill ai'n electronig gan ddefnyddio Adobe Acrobat Reader, neu os hoffech chi lenwi'r ffurflen â llaw, llenwch hi mewn PRIFLYTHRENNAU gan ddefnyddio inc du.

<table>
<tr><td colspan="11">Gellir defnyddio'r ffurflen hon i roi gwybod i Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant eich bod yn dymuno canslo eich lle ar y rhaglen o'ch dewis. Er mwyn arfer eich hawl i ganslo, dylech roi gwybod i ni am eich penderfyniad i ganslo o fewn 14 diwrnod o'r dyddiad y gwnaethoch dderbyn eich cynnig. Nid oes angen i chi roi unrhyw reswm dros eich penderfyniad. Hefyd nid oes rhaid i chi ddefnyddio'r ffurflen hon. Bydd datganiad ysgrifenedig yn ein hysbysu o'ch penderfyniad i ganslo a anfonir i'r cyfeiriad perthnasol isod hefyd yn dderbyniol.</td></tr>
<tr><td colspan="3">Rhif y Myfyriwr</td><td colspan="8"></td></tr>
<tr><td colspan="3">Teitl Mr/Mrs/Miss/Ms/Arall</td><td colspan="8"></td></tr>
<tr><td colspan="3">Cyfenw / Enw Teuluol</td><td colspan="8"></td></tr>
<tr><td colspan="3">Enwau Cyntaf / Enwau a Roddwyd</td><td colspan="8"></td></tr>
<tr><td colspan="3">Dyddiad Geni (DD/MM/BBBB)</td><td colspan="8"></td></tr>
<tr><td colspan="11">Cyfeiriad Parhaol / yn y Famwlad</td></tr>
<tr><td colspan="11"></td></tr>
<tr><td colspan="3">Sir/Talaith</td><td colspan="8"></td></tr>
<tr><td colspan="3">Cod Post/Zip</td><td colspan="8"></td></tr>
<tr><td colspan="3">Gwlad</td><td colspan="8"></td></tr>
<tr><td colspan="3">Rhif Ffôn Cartref</td><td colspan="8"></td></tr>
<tr><td colspan="3">Rhif Ffôn Symudol</td><td colspan="8"></td></tr>
<tr><td colspan="3">E-bost</td><td colspan="8"></td></tr>
<tr><td colspan="3">Rhaglen Astudio</td><td colspan="8"></td></tr>
<tr><td colspan="3">Blwyddyn Mynediad (h.y. Blwyddyn 1/2/3)</td><td colspan="8"></td></tr>
<tr><td rowspan="2">Lleoliad</td><td>Abertawe</td><td></td><td>Caerfyrddin</td><td></td><td>Caerdydd</td><td></td><td>Llundain</td><td></td><td>Birmingham</td><td></td></tr>
<tr><td>Dysgu o bell</td><td></td><td colspan="3">Arall - rhowch fanylion</td><td></td><td colspan="4"></td></tr>
<tr><td colspan="11">Cadarnhaf fy mod yn dymuno canslo fy lle i astudio ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.</td></tr>
<tr><td colspan="7">Llofnod yr Ymgeisydd:<br>Drwy deipio'ch enw yma,<br>rydych yn llofnodi'r ffurflen hon<br>yn electronig.</td><td colspan="4">Dyddiad</td></tr>
<tr><td colspan="11">Gellir cyflwyno'r ffurflen hon ar ffurf electronig, neu ar ffurf copi caled trwy'r post i'r cyfeiriad isod:<br><br>derbyniadau@pcydds.ac.uk<br>Y Swyddfa Derbyniadau, PCYDDS, Technium 1, Heol y Brenin, Abertawe SA1 8PH</td></tr>
</table>

## Rheoli Fersiynau Dogfennau

| Rhif y Fersiwn: | Rheswm dros newid: | Awdur: | Dyddiad y newid: |
|---|---|---|---|
| 0.1 | Adolygiad blynyddol – drafft cychwynnol i'w ystyried gan yr Pwyllgor Profiadau Myfyrwyr. | Gemma Green, Uwch Swyddog Derbyn / Matthew Curtis, Rheolwr Derbyn / Andrew Carr, Pennaeth Recriwtio Myfyrwyr ac Ehangu Mynediad / Elin Bishop, Pennaeth Gweithredol y Gofrestrfa | 13/05/26 |
| 1.0 | Fersiwn derfynol wedi'i chymeradwyo gan yr Pwyllgor Profiadau Myfyrwyr. | Gemma Green, Uwch Swyddog Derbyn / Matthew Curtis, Rheolwr Derbyn / Andrew Carr, Pennaeth Recriwtio Myfyrwyr ac Ehangu Mynediad / Elin Bishop, Pennaeth Gweithredol y Gofrestrfa | 21/05/26 |

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David